**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2009 yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Ardal, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Trevor Roberts, Eryl Jones-Williams, (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorwyr R. Aeron Williams, Bill Pritchard (Cyngor Tref Abermaw), Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Mr K. J. Probert (Cymdeithas y Bad Achub), Mr Denis Howell (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Tom Ellis a Gethin Williams (Cyngor Gwynedd), Mr Huw Davies (Peiriannydd Grŵp).

1. **GAIR O GROESO**

Croesawyd Mr Denis Howell, aelod o Glwb Hwylio Meirionnydd, i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn fel olynydd i Mr Meic Ellis.

2. **MATER BRYS**

**(Nid oedd eitem 7 wedi ei chynnwys ar y Rhaglen ond cytunodd y Cadeirydd i'w hystyried dan Adran 100 (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972).**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem – Rheoliadau Llongau Drafft oherwydd ei fod yn gwasanaethu ar Is-bwyllgorau Trwyddedu'r Cyngor.

'Roedd o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar y mater.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 7 Hydref 2008.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r cywiriadau isod:**

**Eitem 6 – Adroddiad y Swyddog Morwrol**

**Cymal (i) - yng nghyswllt cyfeiriad at y "ddwy goch yn dod i'r lân ac un ohonynt ar goll yn llwyr" eglurwyd a phwysleisiwyd ymhellach mai ar goll yn ceisio dod i'r lân oedd y cwch dan sylw ("lost in navigation"). Teimlai aelod na ddylid fod wedi cofnodi hyn o gwbl.**

**Cymal (iii) – ychwanegu'r geiriau Cymdeithas Hwylio Frenhinol "Royal Yachting Association" ar ôl y gair "Tystysgrif Lefel 2".**

5. **<u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>**

**(a) Cymal (viii) – Deddf Harbwr**

Cyfeiriwyd at y Ddeddf Harbwr ac fe nododd cynrychiolydd y Clwb Hwylio mai dehongliad y Clwb o gynnwys y Ddeddf ydoedd fel a ganlyn a'i fod wedi ei nodi yn glir yng Nghynllun Rheoli Traethlinau ("Shoreline Management Plan"):

Roedd yr aelod yn datgan "bod y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r Harbwr". Aeth yr aelod ymlaen i ddweud bod y Cynllun Rheoli Traethlinau yn nodi "mai Cyngor Gwynedd ydoedd Awdurdod yr Harbwr gyda phŵer i atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r Harbwr". Trosglwyddwyd y dyletswyddau, hawliau ac atebolrwydd yr Ymddiredolwyr gan Gyngor Trefol Abermaw ynghyd a buddsoddiadau ynddynt".

"the act does place a duty on the Council to repair, deepen, extend and preserve the Harbour under Shoreline Management Plan discussed the Act "Gwynedd Council are the Harbour Authority and are empowered to repair, deepen, and enlarging and preserving the Harbour. The Bamouth Urban District Council Act transferred the duties, rights and liabilities of the Trustees together with properties invested in them".

Mewn ymateb esboniodd y Swyddog Morwrol bod Uned Gyfreithiol y Cyngor wedi edrych yn fanwl ar gynnwys y Ddeddf Harbwr ac wedi dod i ganlyniad bod gan y Cyngor bwerau ar gyfer atgyweirio, dyfnhau, ehangu a diogelu'r Harbwr ond ddim dyletswydd i ymgymryd â'r gwaith. Nid oedd y Cynllun Rheoli Traethlinau ("Shoreline Management Plan") mewn bodolaeth pan gyhoeddwyd Deddf yr Harbwr ac felly nid yw yn berthnasol ac ni ellir ystyried dehongliad y Cynllun. Esboniwyd bod y Ddeddf yn hollol glir sy'n rhoi'r pŵer i'r Cyngor ymgymryd â'r gwaith ond ddim **dyletswydd** arno i ymgymryd â'r gwaith. Aeth y Swyddog Morwrol ymlaen i ddweud nad oedd yn fwriad i'r Cyngor gael barn gyfreithiol bellach ond bod rhyddid i unrhyw unigolyn herio barn y Cyngor pe dymunir ar gostau eu hunan.

**Penderfynwyd: Bod yr eglurhad uchod yn cael ei dderbyn.**

**(b) Cymal (b) (i) ar Dudalen 5**

**Adroddwyd:** (i) Gan y Swyddog Morwrol nad oedd pwrpas i ddirprwyaeth o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn gwrdd â swyddogion perthnasol yng Nghaernarfon i drafod y posibilrwydd o'r Uned Briffyrdd a Bwrdeistrefol drosglwyddo canran o dderbyniadau'r maes parcio yn Abermaw i'r Gwasanaeth Morwrol. Ni fyddai modd i 'run gwasanaeth / adran drosglwyddo cyllid yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni oherwydd bod yn rhaid i bob Gwasanaeth o'r Cyngor chwilio am arbedion. Pe byddai unrhyw wasanaeth yn trosglwyddo arian i wasanaeth arall yna fe fyddai'n ofynnol i'r gwasanaeth hwnnw ddarganfod y diffyg o dan bennawd arall a / neu orfod lleihau cyllideb flynyddol y gwasanaeth. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater eto pan yn briodol mewn ymgais i gael canran o gyllideb taliadau parcio i'r Gwasanaeth Morwrol.

**Penderfynwyd - Nodi'r uchod.**

6. **<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol**,** Mr Barry Davies, ar weithgareddau yn harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

(i) Ffioedd a Thaliadau
(ii) Cyllidebau
(iii) Mordwyo
(iv) Gwobrau Traeth
(v) Ad-drefnu Gwasanaethau
(vi) Canlyniad Barn Cwsmer

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig :

(i) ei bod yn ofynnol i gynyddu ffioedd a thaliadau i sicrhau cynnal yr Harbwr. Cyfeiriwyd at yr atodiadau priodol oedd yn dangos y ffioedd a thynnwyd i sylw bod y rhain wedi codi 3% i drigolion Gwynedd a chynnydd o 5% i unigolion sy'n byw tu allan i Wynedd. 'Roedd targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol am 2009/10 yn £2,121,900 ac fe fyddai hyn yn her sylweddol i'r Gwasanaeth oherwydd sefyllfa fregus yr economi.

(ii) yng nghyswllt cyllidebau'r harbwr tynnwyd sylw at darged incwm yr harbwr sef £53,530 a chyrhaeddiad hyd yma yn £37,166. Tywyswyd yr aelodau drwy'r cyllidebau gan egluro'r gwahanol elfennau ar y rhestrau. Yn yr un modd tywyswyd yr aelodau drwy gyllidebau'r traethau oedd ynghlwm i'r adroddiad.

(iii) y prynwyd disel coch pan oedd y pris yn uchel ac oherwydd bod pris wedi gostwng y byddai'n rhaid ysgwyddo'r baich o'i werthu ar golled. Cyhoeddwyd rheoliadau newydd gan y llywodraeth yn ddiweddar ynglŷn â gwerthiant disel coch i ddefnyddwyr cychod pleser. Ni ychwanegir Treth am ddefnyddio disel coch i wresogi cychod pleser ond fe godir 40c y litr dreth ychwanegol am dramwyo yn y cwch. Byddai'n ofynnol i unigolion wneud datganiad yn datgan pa ganran o ddisel coch y byddent yn defnyddio. Nodwyd nad oedd y rheol hon yn berthnasol i fasnachwyr na physgotwyr.

(iv) o safbwynt **mordwyo** 'roedd y cymhorthion wedi aros yn eu lle yn ystod misoedd cyntaf y gaeaf. Nodwyd bod y "golau polyn" wedi ei gynnal a'i gadw ac 'roedd cost o £600 am dorri'r bolltenau oedd wedi rhydu a newid ac asio'r cantelau. Mynegwyd pryder am gymhorthydd mordwyo ym mherchnogaeth Dŵr Cymru ac addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'n ysgrifennu atynt i ofyn iddynt weithredu ynglŷn â hyn ar frys.

Mynegwyd pryder gan aelod ynglŷn â chyfarwyddiadau i forwyr ar amserlenni llanw oherwydd teimlai bod elfen o ddryswch iddynt ac yn arbennig ei hymwybyddiaeth o beryglon. Derbyniwyd y sylw gan y Swyddog Morwrol ac ychwanegodd bod cyrsiau proffesiynol i forwyr yn cael eu cynnal yn lleol.

(v) siom ydoedd nodi bod **canlyniad ansawdd dwr ymdrochi** Abermaw wedi methu cyrraedd y gofynion cydnabyddedig gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Gwobr y Faner Las eleni. Nodwyd bod ansawdd dwr ymdrochi Abermaw wedi bod yn ardderchog pob blwyddyn ers 1997 a thynnwyd sylw'r aelodau at y dyddiadau hynny lle methodd y dŵr gyrraedd y safon briodol a hynny ar un achlysur yn unig. Fodd bynnag, llwyddwyd i gael y Wobr Glan Môr Traeth Trefol.

Datganwyd siom ymysg yr aelodau ynglyn â cholli'r Faner Las ac 'roeddynt yn awyddus i'r Swyddog Morwrol ganfod pryd y gwneir yr arbrofion fel bo modd efallai canfod yr effaith megis tywydd garw. Teimlai aelod tra ei fod yn siom i Abermaw o golli'r Faner Las 'roedd yn dangos bod y profion yn gweithio a mynegodd bryder bod y canlyniadau yn uchel ac yn creu perygl o ran iechyd y cyhoedd. 'Roedd yr aelodau o'r farn bod problem hanesyddol hefo pibell ollwng Dŵr Cymru wrth ymyl yr orsaf bwmpio ac y gall hyn gyfrannu tuag at y canlyniadau gwael. Ychwanegwyd bod problemau hanesyddol yn codi o'r bibell ollwng ar yr Harbwr sy'n gwasanaethu tai Rhes Aberamffra a'r Toll House. Nodwyd hefyd bod cynnydd yn y nifer o loriau cario carthion sydd i'w gweld o amgylch yr ardal. Addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'n gwneud ymholiadau pellach ynglyn â chanlyniadau'r profion ar ran y Pwyllgor Ymgynghorol ac fe fydd yn cyfarfod yr aelod ar safle Aberamffra ar ol y cyfarfod er edrych ar faterion yr ardal.

(vi) oherwydd y setliad gwael a dderbynia'r Cyngor gan lywodraeth y Cynulliad, mai'n anorfod i'r Cyngor orfod gwneud arbedion effeithlonrwydd ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Fel rhan o'r toriadau fe fydd yr Uned Dysgu Gydol Oes a oedd yn cael ei arwain gan Mr Rhys Wyn Parri yn cael ei ddiddymu o'r 31 Mawrth 2009. Golygai hyn felly bod swydd Mr Rhys Wyn Parri, Pennaeth Dysgu Gydol Oes, yn cael ei diddymu o'r gyfundrefn bresennol a phrysurodd y Swyddog Morwrol i ddweud bod Mr Parri wedi cymryd diddordeb, wedi bod yn frwdfrydig a'i fod wedi bod yn gefnogol i waith yr Uned Forwrol ar hyd y blynyddoedd a fu yn ei swydd. O ganlyniad, fe fyddai'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd o'r 1 Ebrill 2009 dan ofal Mrs Sioned E. Williams, Pennaeth Economi ac Adfywio. Rhydd hyn gyfle i'r Uned Forwrol gydweithio'n agos gydag arbenigwyr yn y maes datblygu'r economi yn arbennig yng nghyd-destun canfod ffynonellau am grantiau perthnasol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau i'r Harbwr.

Ychwanegwyd bod penderfyniadau anodd iawn gan yr aelodau etholedig i'w gwneud i'r dyfodol. Y flwyddyn nesaf 'roedd yr Uned Forwrol yn colli hanner swydd Harbwr Feistr ym Mhwllheli a phwysleisiwyd mai Harbwr Pwllheli oedd un o'r harbyrau prysuraf.

Rhagwelir y byddai'n rhaid edrych ar harbyrau eraill yn yr un modd a phwysleiswyd yr angen i'r holl staff gydweithio'n ddiwyd er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth.

(vii) mai siomedig ydoedd ymateb y cwsmeriaid i'r canlyniad barn sef 45% ond wedi deud hynny 'roeddynt wedi cael y cyfle i fynegi barn. Ar y cyfan 'roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ond nid da lle gellir gwell ac fe fyddai'r Uned Forwrol yn parhau i wella'r cyfleusterau.

**Penderfynwyd:- Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

## 7. RHEOLIADAU LLONGAU DRAFFT

**Cyflwynwyd:** I'r aelodau yn ystod y cyfarfod, rhannau perthnasol o reoliadau ar gyfer ymgynghoriad gan yr Adran Drafnidiaeth i eithrio morwyr mewn categorïau penodol o longau o'r drosedd o fod dros y lefel o alcohol a ganiateir yn deillio o Adran 80 (2) Deddf Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth.

**Adroddwyd:** Gan y Swyddog Morwrol ar y Ddeddf a fwriedir ei chyflwyno ger bron y Senedd. Nododd y Llywodraeth ei fod yn tueddu eithrio cychod rhwyfo a phadlo a dingis hwylio o'r cyfyngiadau anadl a'r profion cysylltiedig. 'Roedd peth cefnogaeth yn yr ymgynghoriad i ffigyrau a oedd yn seiliedig ar y paramedrau a awgrymwyd ynghylch eithriad yn seiliedig ar gyflymdra o ddim mwy na 7 milltir mor a hyd o ddim mwy na 7 metr.

Nodwyd bod y Llywodraeth yn gweithio ar fesurau i ymdrin â Badau Dwr Personol ar wahân er sicrhau bod Badau dwr Pesonol yn cael eu cynnwys yn y ddeddf ond nad oedd hynny yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Gofynnwyd i'r aelodau am eu sylwadau i'r ymgynghoriad.

Croesawodd yr aelodau'r rheoliadau o fewn y Ddeddf ond mynegwyd pryder ynglyn â defnyddwyr y Badau Dŵr Personol. Sicrhaodd yr Harbwr Feistr os oedd unigolion dan effaith alcohol, 'roedd ar bob achlysur yn cysylltu â'r Heddlu.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyfleu cymeradwyaeth y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i'r rheoliadau a gyfeirir atynt uchod.**

## 8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd wedi eu cyfeirio at y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymlaen llaw, ar gyfer eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddog iddynt:-

(1) A oedd yn bosibl cyrraedd targed angorfeydd o 140?

*Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol bod potensial i gael 140 o angorfeydd ar sail gwybodaeth wyddonol ac nad oedd incwm yr Harbwr yn seiliedig ar nifer yr angorfeydd. 'Roedd yr incwm wedi ei selio yn hanesyddol gan gyn Cyngor Dosbarth Meirionnydd a'i fod wedi ei godi yn flynyddol yn unol â chwyddiant.*

(2) Gwaith adfer a gwella ardal y “Bathouse” gan gynnwys cael gwared â thywod o’r ardal o gwmpas. ’Roedd Cymdeithas Defnyddwyr yr Harbwr yn awyddus i gael gwared â’r tywod o’r ardal hon gan awgrymu ei roi ochr arall i’r morglawdd ac o ganlyniad byddai modd cael mwy na 140 o angorfeydd. Awgrymiad arall ydoedd cario’r tywod o dan y bont wrth ymyl “Last Inn”.

*Derbyniodd y Swyddog Morwrol y sylw ond y byddai’n rhaid trafod hyn hefo’r Peiriannydd Grŵp, Uned yr Arfordir, ac ni ragwelir unrhyw ddatblygiad y flwyddyn gyllidol yma oherwydd diffyg cyllid.*

Mewn ymateb, awgrymodd aelod y Clwb Hwylio efallai y gallai mudiadau sydd â diddordeb edrych ar wneud ceisiadau o amrywiol ffynonellau cyllido eraill fel cyfraniadau at y gwaith hwn.

(3) Dal angen pontynau i wella mynediad i gychod yn arbennig i’r anabl a’r henoed

*Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol na fyddai gwrthwynebiad i unrhyw fudiad wneud cais am grant o ffynonellau eraill ar gyfer prynu pontŵn i wella mynediad i gychod. ‘Roedd y Cyngor yn cydweithio hefo grwpiau gwirfoddol eraill yn ardaloedd y Sir a chroesawir unrhyw gynllun gan y Clwb Hwylio pe dymunent wneud hynny. Sicrhawyd y byddai’r Harbwr Feistr yn parhau gyda’i orchwyl i chwilio am bontynau yn y cyfamser.*

(4) Cyflwr yr ysgolion - ni fyddai angen gwneud gwaith iddynt pe byddai pontŵn ar gael.

*Mewn ymateb, derbyniodd y Swyddog Morwrol bod angen ymgymryd â gwaith i’r ysgolion ac y byddir yn ceisio am gyllid i wneud hyn maes o law. Pwysleisiodd bydd yr Harbwr Feistr yn archwilio’r ysgolion heb oedi ac yn cychwyn ar unrhyw waith angenrheidio i’w cynnal a chadw.*

(5) Glanhau ardal yr Harbwr i’r un safon a gweddill y dref. Mae’r colomennod o dan bont y rheilffordd yn achosi problemau gyda’u baw.

*Mewn ymateb, eglurwyd bod staff yr Harbwr wedi glanhau o dan bont y rheilffordd yn ddiweddar a nodwyd bod y Cyngor Tref wedi gofyn i’r gwasanaeth priodol am amserlen a rhestr waith.*

(6) Cyflwr y toiledau cyhoeddus yn dal yn warthus.

*Awgrymwyd y dylai’r Cadeirydd, Swyddog Morwrol ynghyd â Mrs Wendy Ponsford a Mr Denis Howell, fynd i ymweld â’r toiledau yn dilyn y cyfarfod hwn.*

(7) Angen ymestyn llinellau melyn dwbl i wella diogelwch y tu allan i’r lloc cychod ac o amgylch yr Harbwr.

Amlinellwyd y broblem bod cerbydau yn parcio o boptu mynediad i’r lloc cychod a’i fod yn anodd i’r contractwr fedru dod allan hefo’i gerbyd oherwydd ei faint a’i anallu i droi’n gyfleus.

*‘Roedd y Cadeirydd o’r farn y byddai’n anodd cael llinellau melyn ac y gellid edrych ar hyn wrth ymdrin â’r Gorchymyn Parcio maes o law. Fodd bynnag yn y cyfamser, awgrymwyd fel cam ymlaen i hysbysu’r Heddlu pan fydd y contractwr angen cael mynediad o’r lloc fel bo modd iddynt osod conau traffic i rwystro ceir parcio o boptu’r fynedfa. Awgrymwyd ymhellach y gall yr Harbwr Feistr roi conau allan*

**Penderfynwyd Derbyn a nodi’r sylwadau wnaed ynghyd ag ateb y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i’r rhain.**

**(Nododd y Cadeirydd nad oedd yn caniatáu ymdrin ag Eitemau (viii) i (xii) ar y rhaglen.**

9. **UNRHYW FATER ARALL – MATERION DIOGELWCH**

**Adroddwyd:** Gan aelod ei bryder ynglyn â safle rhai o’r cymhorthion mordwyo ynghanol y sianel.

*Mewn ymateb i’r pryder uchod, awgrymwyd er mwyn deall yn union safleoedd y cymhorthion mordwyo dan sylw, mai da o beth fyddai i’r aelod gwrdd â’r Harbwr Feistr yn dilyn y cyfarfod hwn. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol bod cynllun a thaflen wedi ei gynhyrchu a’i gyflwyno i’r Pwyllgor Ymgynghorol oddeutu dwy flynedd yn ôl a oedd yn manylu ac yn rhybuddio morwyr ar sut i fordwyo i mewn ac allan o’r Harbwr.*

10. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 6 Hydref 2009.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi’r uchod**

CADEIRYDD